

Tasg 2

Rhwng dau fynydd

Camp arbennig

Gŵyl slacleinio sydd yn y sleidiau. Mae slacleinio yn gamp eithafol ond beth yn union ydy hi?

Wel, edrychwch ar y ddau air yma: slac + leinio

Yn y gamp eithafol yma, mae'r slacleiniwr yn cerdded ar draws lein sydd wedi ei gosod rhwng dau fynydd uchel. Mae'r gamp yn wahanol i gerdded ar draws rhaff dynn oherwydd bod y lein ei hun yn wahanol. Mae'n fwy fflat na rhaff dynn ac mae ychydig o slac yn y ffordd mae hi wedi ei gosod, h.y. dydy hi ddim yn hollol dynn. Mae hyn yn golygu ei bod yn gallu symud o ochr i ochr yn y gwynt neu hyd yn oed bownsio pan fydd rhywun yn cerdded ar ei thraws.

Yn yr ŵyl sydd yn y sleidiau, mae'r slacleinwyr yn cael cyfle i gerdded ar draws 18 o leiniau sydd wedi eu gosod rhwng y mynyddoedd ac i gymryd rhan mewn cystadleuaeth tîm. Maen nhw'n cysgu mewn hamogau ar y leiniau, ond fel mewn gwyliau poblogaidd eraill, mae cerddoriaeth, ffilmiau, gweithdai a digon o hwyl a chyfeillgarwch hefyd. Maen nhw'n cael cyfle i wneud ioga a pharagleidio hefyd.

Brawychus? Deniadol? Hwyl? Beth ydych chi'n feddwl?

Geirfa		
Cymraeg	Diffiniad	Saesneg
tynn	heb fod yn rhydd nac yn slac	tight
slac	heb fod yn dynn	loose
cyfeillgarwch	y berthynas rhwng ffrindiau	friendship

1. Hoffech chi fynd i wyl slacleinio?
Rhowch resymau dros eich ateb.

2. Mae'r gamp yma'n gamp eithafol.
Gwnewch restr o 5 camp eithafol rydych chi'n gwybod amdanyn nhw.
Ysgrifennwch baragraff yn disgrifio beth sy'n digwydd ym mhob un o'r campau.

Trafodwch y gwahanol gampau mewn grŵp.